Adroddiad am drafodaeth Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar y dystiolaeth a gasglwyd yng nghyswllt y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru

Cyflwyniad

1. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Chynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru ar 29 Ionawr er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Daw'r broses ymgynghori i ben ar 30 Mawrth. Yn y cynllun, nodir tri phrif nod:

    - Gwella dealltwriaeth o dueddiadau'r farchnad ac ymddygiad defnyddwyr;
    - Meithrin arloesedd a gwella'r gadwyn gyflenwi;
    - Gwella perfformiad busnes cynhyrchwyr a phroseswyr i ymateb i'r newidiadau yn amgylchiadau'r farchnad a galwadau defnyddwyr.

2. Casglodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad dystiolaeth ynghylch y cynllun yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror ac 1 Mawrth. Dyma'r cyrff a gynrychiolwyd yn y sesiynau tystiolaeth:

    - J Sainsbury plc
    - NFU Cymru
    - Undeb Amaethwyr Cymru

    Yn anffodus, nid oedd Tesco yn teimlo y gallai ymateb i'n gwahoddiad i roi tystiolaeth ar 7 Chwefror ac, oherwydd rhaglen waith lawn, nid oedd digon o amser y tymor hwn i estyn gwahoddiad i eraill, fel cwmnïau cydweithredol a phroseswyr. Roedd y cyrff a ddaeth i'r cyfarfod hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ymlaen llaw. Mae'r dystiolaeth ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 1, yn ogystal â'r trawsgrifiad o'r dystiolaeth lafar a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn Atodiad 2.

3. Mae'r adroddiad a ganlyn yn crynhoi'r prif bwyntiau a drafodwyd ac mae'n ffurfio ymateb y Pwyllgor i broses ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru. Sylweddolwn nad oes gan y Gweinidog gyfrifoldeb dros yr holl faterion a'r pwysau masnachol sy'n effeithio ar y diwydiant llaeth. Gan hynny, rydym yn cynnig nifer gyfyngedig o argymhellion lle rydym yn credu y gellid gwella'r cynllun gweithredu, er mwyn i'r Gweinidog fedru cynrychioli gwir fuddiannau Cymru ac archwilio cynigion arloesol.

Ymatebion i'r cynllun gweithredu strategol

4. Rhannodd y tystion eu sylwadau am y cynllun. Credai Sainsbury's fod y Gweinidog wedi nodi'n gywir yr elfennau a oedd yn creu diwydiant llaeth cynaliadwy, effeithlon, proffidiol ac arloesol. Fodd bynnag, byddai wedi hoffi ei weld yn rhoi mwy o bwysigrwydd i ddymuniadau

defnyddwyr wrth fwrw ymlaen â'r strategaeth. Roedd y ddau undeb yn feirniadol o'r cynllun. Ym marn yr FUW nid oedd amcanion y cynllun yn ddigon clir, ac felly roedd yn anodd ei fonitro a'i werthuso. Roeddynt hefyd yn credu bod angen egluro'n well sut y byddai'r cynllun yn cael ei ariannu. Roedd NFU Cymru hefyd yn feirniadol gan nodi yn eu tystiolaeth lafar nad oeddynt yn gweld unrhyw ymrwymiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â materion macro – ymddygiad adwerthwyr/prynwyr; fframwaith cystadleuol a fyddai'n caniatáu i gyrff gyfuno; lleihau'r pwysau rheoliadol – a fyddai'n effeithio ar broffidioldeb y diwydiant. Fel yr FUW, byddai'n hoffi gweld rhagamcanion ariannol ar gyfer cyflawni amcanion.

Cyflwr presennol diwydiant llaeth Cymru

5. Yn eu tystiolaeth lafar, nododd Sainsbury's y prif anawsterau a wynebai amaethyddiaeth heddiw: y gostyngiad yn nifer y ffermydd; diffyg buddsoddiad yn gyffredinol; a phroblemau cynllunio ar gyfer olyniaeth. Er i ni gael ein dychryn gan adroddiadau yn y wasg a ddywedai y gallai'r DU fod yn mewnforio llaeth erbyn 2011, cawsom ein calonogi o glywed bod Sainsbury's yn ystyried bod lle i ddiwydiant llaeth Cymru dyfu.

6. Clywsom lawer, fodd bynnag, am y pryder ynglyn â chyflwr diwydiant llaeth Cymru. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd NFU Cymru at "the dire and deteriorating circumstances of the Welsh industry", sy'n gwaethygu o ganlyniad i diwbercwlosis mewn buchesi godro. Mae'r strategaeth yn nodi bod tua 1,000 o fermwyr wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu llaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bod y nifer yn debygol o ostwng 5.6 y cant eto, sy'n cyfateb i oddeutu 1,000 arall, yn ystod y tair neu bedair blynedd nesaf. Nid yw cynhyrchiant wedi gostwng eto, oherwydd bod maint y busnes yn sylweddol fwy nag ydoedd gynt. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y byddai'r diwydiant yn arbennig o fregus pe bai busnesau mawr yn gadael. Byddai perygl i'r seilwaith chwalu gan adael rhannau o Gymru heb ddiwydiant llaeth. Gan fod y diwydiant llaeth yn aml yn apelio at ffermwyr ifanc sy'n dechrau ar eu gyrfa, ni ellir gorbwysleisio effaith y dirywiad ar ddyfodol amaethyddiaeth.

7. Credwn na ellir ac na ddylid ystyried dyfodol y diwydiant llaeth ar wahân i ystyriaethau eraill. Rydym yn cofnodi'n pryder ynglyn â'r effaith amgylcheddol wrth i ffermwyr adael y diwydiant neu wrth iddynt orfod cadw buchesi anferth o 1,000 o wartheg er mwyn iddi fod yn ymarferol iddynt gynhyrchu llaeth. Byddai canlyniadau storio llawer o slyri ar ffermydd yn peri pryder i ni a byddem yn gwrthwynebu i ffermwyr dyfu porfa ymhell o'u ffermydd er mwyn cludo silwair i fuchesi nad ydynt yn cael eu hanfon allan i bori. Y mae hefyd yn anodd gorbwysleisio effaith diboblogi ar gynaliadwyedd yr economi wledig.

Prisiau wrth gât y fferm

8. Roedd yr aelodau am archwilio'r ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y prisiau a gaiff ffermwyr am gynhyrchu llaeth, sydd ymhlith yr isaf yn yr Undeb Ewropeaidd, ac roeddynt am sicrhau tryloywder oherwydd y gwahaniaeth rhwng y prisiau wrth gât y fferm a'r prisiau y mae defnyddwyr yn eu talu mewn siopau. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd yr FUW ein sylw at y ffaith bod y pris a gaiff y ffermwr am ei laeth wedi gostwng er y bu cynnydd sylweddol yn y costau cynhyrchu. Rydym yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r ffactorau sydd wedi effeithio ar y costau hyn yn ddiweddar o ganlyniad i'r cynnydd mewn prisiau ynni yn benodol. Dywedodd NFU Cymru wrthym fod cynhyrchwyr yn awr yn derbyn 27 y cant o bris manwerthu llaeth hylif gan bwysleisio bod yn rhaid i gynhyrchwyr wneud elw a chael hyder i fuddsoddi yn eu busnesau.

9. Dywedodd Sainsbury's wrth y Pwyllgor eu bod yn monitro prisiau tua 14,000 o eitemau bob wythnosa er mwyn eu cymharu â phrisiau'u cystadleuwyr. Pe bai pris llaeth yn newid, yna byddent yn newid eu prisiau i sicrhau eu bod yn gystadleuol. Pwysleisiodd fod prisiau wedi gostwng ers dadreoleiddio ond eu bod yn prynu llaeth gan broseswyr a oedd yn gallu sicrhau mwy o elw na'r farchnad ar gyfartaledd.

10. Roedd yn ymddangos i ni felly bod nifer o ffactorau'n dylanwadu ar brisiau llaeth. Yn gyntaf, rôl y proseswyr yn y gadwyn gyflenwi a'u canran hanfodol yng nghostau llaeth, a oedd, yn anffodus, yn fater nad oeddem yn gallu ei archwilio'n fanwl. Yn ail, dosbarthu llaeth, a chawsom ein hannog i ystyried a fyddai'n well cymryd rhywfaint o laeth drwy ddepos yn hytrach na'i gymryd yn uniongyrchol i siopau. Yn olaf, mae angen ystyried effeithiolrwydd ffermydd ac a yw pris o thua 17 ceiniog y litr yn briodol.

Y Gadwyn Gyflenwi

Sefydlogrwydd y cyflenwad

11. Roedd sicrhau sefydlogrwydd y cyflenwad yn amlwg yn bryder mawr i fanwerthwyr. Dywedodd Sainsbury's wrthym fod ganddynt gytundebau mewn nifer o ardaloedd llaeth ar gyfer llaeth confensiynol ac organig i sicrhau cyflenwad cynaliadwy. Eglurodd eu bod yn awr yn awyddus i greu perthynas fwy adeiladol â ffermwyr, yn ogystal â phroseswyr, er mwyn cynnwys cynhyrchwyr yn eu gweledigaeth ar gyfer manwerthu llaeth.

Ffermwr/prosesydd/manwerthwr

12. Roedd yn ddiddorol clywed am y cytundebau rhwng Sainsbury's a ffermwyr i sicrhau cyflenwad o laeth organig ac roeddem yn croesawu

eu menter i gynorthwyo ffermwyr sy'n newid i safonau organig. Mae'r ffermwr yn cael cyfraniad tuag at y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â newid o gynhyrchu llaeth confensiynol i laeth organig ar raddfa o 11 ceiniog y litr.

13. Mae'r Pwyllgor yn croesawu menter Sainsbury's o ran y grwpiau datblygu llaeth a grëwyd ym mis Hydref 2006, ac mae'n credu y bydd yn helpu i gael y gadwyn gyflenwi i gydweithio. Rydym ar ddeall y bydd fforymau'n cael eu trefnu ar gyfer y grwpiau hyn bob chwarter a byddwn yn hybu perthynas waith agosach rhwng y manwerthwr, y proseswr a'r ffermwr.

14. Deallwn gan NFU Cymru fod y cytundebau presennol rhwng cynhyrchwyr a phroseswyr yn parhau am 18 mis, ond nid yw'r pris yn cael ei warantu am y cyfnod hwnnw. Mae'n amlwg, gan hynny, fod y cynhyrchydd dan anfantais fawr.

15. Un o brif bryderon yr NFU oedd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu fframwaith cystadleuaeth a fyddai'n caniatáu cyfuno gweithgareddau prosesu llaeth. Teimlent hefyd y dylai'r sector prosesu llaeth, yn enwedig busnesau sy'n eiddo i ffermwyr, gael rhesymoli i fod yn fwy cystadleuol.

Cwmnïau llaeth cydweithredol

16. Ar hyn o bryd mae tri chwmni cydweithredol yng Nghymru sy'n gyfrifol am 60 y cant o'r llaeth a gynhyrchir. Roeddem yn pryderu o glywed fod eu gallu i brosesu'n datblygu'n araf ac nad yw'n cyfateb i'r galw gan ddefnyddwyr. Dywedodd yr FUW wrthym eu bod yn credu y byddai'r cwmnïau cydweithredol yn uno yn y pen draw ac y byddai o fudd i'r diwydiant. Roeddynt yn dadlau y dylid delio ag agwedd y Swyddfa Masnachu Teg tuag at bolisi cystadleuaeth o safwbynt uno'r diwydiant llaeth er mwyn cwrdd â'r her sy'n ei wynebu gan farchnad sy'n mynd yn fwyfwy fyd-eang. Byddai NFU Cymru yn hoffi gweld sefydliadau sy'n eiddo i ffermwyr yn cryfhau er mwyn eu galluogi i fargeinio â manwerthwyr mawr.

Cystadleurwydd

17. O gofio'r cyhoeddusrwydd a gafodd cyhoeddiad y Comisiwn Cystadleuaeth yn ddiweddar ynglŷn ag arferion gwrthgystadleuol ym maes manwerthu a phrosesu, roedd yn ddiddorol clywed sylwadau'r tystion ynglŷn â'r neges yr oeddynt am i'r Gweinidog ei throsglwyddo i Lywodraeth y DU a'r Comisiwn. Awgrymodd NFU Cymru y gallai'r Gweinidog ddylanwadu ar y Swyddfa Masnachu Teg i ystyried ochr gynhyrchu'r diwydiant llaeth yn ogystal â materion defnyddwyr. Rydym yn cytuno y gallai hyn fod o fudd i'r diwydiant. **Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn trafod â'r Swyddfa Masnachu Teg sut y gallai ehangu ei drafodaethau â'r diwydiant llaeth i ystyried problemau cynhyrchwyr llaeth.**

Yr angen i fuddsoddi

18. Eglurwyd wrthym fod angen buddsoddi rhagor yn y diwydiant er mwyn ychwanegu gwerth i'r sector llaeth. Unwaith eto, roeddem yn pryderu'n arbennig am gynhyrchwyr o lwerddon a fydd yn cael mantais oherwydd y pecyn cymorth i broseswyr llaeth yn y wlad honno. Nod y pecyn cymorth hwn yw hybu buddsoddiadau cyfalaf ym maes prosesu a marchnata cynnyrch llaeth. **Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ailystyried ei gymorth ariannol i'r diwydiant llaeth ac, yn dilyn y broses ymgynghori hon, ei fod yn sicrhau bod y cynllun gweithredu strategol terfynol yn cynnwys rhagamcanion ariannol er mwyn cyflawni prif amcanion y cynllun.**

Y Diwydiant Llaeth yn Iwerddon – Bord Bia

19. Awgrymodd NFU Cymru y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cyfuno grŵp rheoli'r ganolfan datblygu llaeth â grŵp strategaeth laeth y Cynulliad, er mwyn efelychu cyfluniad a gweithrediad Bord Bia yn Iwerddon, a ychwanegodd 10 y cant at werth allforion Iwerddon y llynedd. **O gofio bod y gwaith o hybu a rheoli'r diwydiant llaeth yn hynod dameidiog yng Nghymru, roedd gennym ddiddordeb mawr yn y cynnig arloesol hwn, ac rydym yn argymell bod y Gweinidog yn archwilio'r posibilrwydd o sefydlu grŵp newydd, tebyg i Bord Bia, i hybu a rheoli'r diwydiant llaeth yng Nghymru.**

20. Roedd NFU Cymru hefyd am weld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd â gwaith i benderfynu a allai corff tebyg i Bord Bia yng Nghymru gynnwys sectorau eraill fel Hybu Cig Cymru. **Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn archwilio'r posibilrwydd o greu corff rheoli llaeth yn y dyfodol y gellid ei uno â chyrff tebyg mewn sectorau eraill yn y diwydiant.**

Adwerthu cynnyrch llaeth

Y galw gan ddefnyddwyr

21. Dywedodd Sainsbury's wrthym mai eu busnes llaeth oedd y mwyaf bywiog ac arloesol o'u meysydd cynnyrch, gyda thwf mewn cynnyrch fel iogwrt, braster swyddogaethol a braster i'w daenu a'r farchnad gaws. Cawsom fraslun clir iawn hefyd o'r galw sydd am gynnyrch llaeth, gyda llawer mwy o ddefnyddwyr nag erioed o'r blaen yn mynnu ansawdd a blas.

    "Efficient and high-quality production facilities, the demand of product integrity, consistent quality, being able to show due diligence in production, particularly with own-label products, represent a high demand that is now driven in the marketplace by the consumer."

Fodd bynnag, rhybuddiodd Sainsbury's rhag buddsoddi'n ormodol mewn llaeth organig gan nad yw'n cyfrif am fwy na 5 y cant o'r gwerthiant organig cyfan.

Cael hyd i gynhyrchion o'r DU

22. Roeddem yn falch o glywed am y twf yn y busnes llaeth o safwbynt y manwerthwyr ond er hynny roeddem yn pryderu nad oedd y twf yn gysyllteidig â chyflenwad a oedd yn tarddu o'r DU. Er enghraifft, dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o iogwrt yn dod o Ewrop er gwaethaf tystiolaeth ddiymwad am ddymuniadau defnyddwyr. Dywedwyd wrthym hefyd ei bod yn anodd cael hyd i gynnyrch gwerth ychwanegol wedi'i becynnu'n addas neu wedi'i botelu, fel llaeth ffres â blas.

23. Er hyn, dywedodd Sainsbury's wrthym am eu hymdrechion i gael hyd i gynhyrchion o'r DU a chawsom ein calonogi wrth ddarllen eu bod yn gwerthu 81 o eitemau wedi'u brandio gan 23 o gyflenwyr o Gymru.

Atodiad 1

Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad 1. Nid oes fersiwn Cymraeg ar gael o'r atodiad yma.

Atodiad 2

Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad 2.